AGORIAD SWYDDOGOL HAZEL COURT, SGETI

Roedd yn bleser gan Tai Teulu wahodd Ei Huchelder Y Dywysoges Frenhinol i agor eu Cynllun Gofal Ychwanegol yn swyddogol yn Hazel Court, Sgeti, Abertawe ar ddydd Llun, 25 Ionawr 2010.

Mae'r cynllun wedi cael ei adeiladu mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdod Lleol, ac mae'n darparu 120 o fflatiau i bobl dros 55 mlwydd oed. Mae cyfleusterau cymunedol ar-safle, sy'n cynnwys bwyty, salon gwallt, llyfrgell/ystafell TG, cyfleusterau hyfforddi a chyfarfod, siop, campfa a neuadd gymunedol.

Mae'r tenantiaid, sydd wedi bod yn byw yno am dros flwyddyn, yn manteisio o wasanaeth gofal a chymorth pwrpasol sy'n cael ei ddarparu gan dîm o staff ar-safle. Mae hyn yn galluogi tenantiaid sydd ag iechyd sy'n gwaethygu i aros yng nghartrefi eu hunain am mor hir â phosib.

Dyluniwyd y cynllun i fod yn rhan o'r gymuned ac mae'r cyfleusterau, fel y neuadd fawr a'r bwyty, yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd yn ogystal â thenantiaid. Mae calendr digwyddiadau prysur yn cael ei gyhoeddi pob wythnos gan y Cydlynydd Gweithgareddau Cymunedol, ac mae arian wedi cael ei ddyrannu ar ei gyfer gan y Loteri Fawr.

Rhoddwyd taith o'r adeilad a'i gyfleusterau i Ei Huchelder Brenhinol, lle wnaeth hi gwrdd â'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ariannu, cynllunio a rheoli'r cynllun cyn datgelu plac i gofio am y diwrnod.

Ei Huchelder Brenhinol gyda Jeff Evans, Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf, yn cwrdd â'r Trigolion yn Hazel Court, Sgeti, Abertawe.